

# Tyfu Canolbarth Cymru Cylchlythyr Mis Chwefror 2024

Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru
Mid Wales Regional Skills Partnership

Gobeithio cawsoch chi fis Chwefror gwych,

Mae Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru (PSRh) wedi bod yn bwrw ymlaen â datblygiadau ers dechrau'r flwyddyn ac rydym yn neilltuo'r rhifyn cyfan hwn i waith y tîm; mae canlyniadau arolwg Sgiliau y llynedd yn barod i'w rhannu, ac mae Cadeiryddion y grwpiau clwstwr busnes sefydledig wedi'u cyhoeddi.

Arweinir y PSRh gennych chi, gyflogwyr, brentisiaid a darparwyr hyfforddiant Canolbarth Cymru, i yrru buddsoddiad ymlaen mewn sgiliau.

Ein cydweithiwr Cwrdd â'r Tîm y mis hwn yw Louise Grove-White, Swyddog Prosiect y PSRh. Mae Louise yn rhoi cipolwg ar ei rôl a'i chyflawniadau allweddol ers ymuno â'r tîm.

Mae ein digwyddiad Datrysiadau Busnes Cynaliadwy wedi'i aildrefnu, i archwilio ffyrdd a allai helpu eich busnes i ddatgarboneiddio, bellach yn cael ei gynnal ddydd Llun, 11 Mawrth. Cofrestrwch cyn hanner dydd ar 4 Mawrth i fod yn bresennol yn bersonol (Gallwch ymuno â'r digwyddiad ar-lein hefyd). Mwy o wybodaeth ar ein tudalen Eventbrite.

Helpu i dyfu cyfleoedd yng Nghanolbarth Cymru,

*Tîm Tyfu Canolbarth Cymru*

[Clawr: Cyfarfod grŵp Clwstwr Adeiladu ac Ynni PSRh]




*1 - https://www.eventbrite.co.uk/e/sustainable-business-solutions-in-mid-wales-tickets-837602199727*

## Cadeiryddion Grwpiau Clwstwr Busnes y PSRh

Yng nghyfarfod Bwrdd y PSRh a gynhaliwyd ar 29 Ionawr, cyhoeddwyd cadeiryddion y grwpiau clwstwr busnes. Daw pob cadeirydd o fusnes neu sefydliad mewn sector penodol a byddant yn llais i'r grwpiau wrth rannu gwybodaeth rhwng y grwpiau, y Bwrdd PSRh a chyda rhanddeiliaid ehangach.




Isod, ceir diagram sy'n dangos yr effaith y gall grwpiau clwstwr busnes eu cael ar sbarduno newid yn y dirwedd sgiliau yng Nghanolbarth Cymru:

LMI (*Labour Market Intelligence*) - Gwybodaeth am y Farchnad Leol




## Grŵp Clwstwr Adeiladu ac Ynni y PSRh

Ar 23 Ionawr, cynhaliodd y PSRh y cyfarfod grŵp Clwstwr Adeiladu ac Ynni cyntaf yn Y Drenewydd gyda Doug Hughes yn cadeirio.

Cyflwynodd Dr Gemma Delafield, ein Harweinydd Ynni Rhanbarthol ar "Sero Net: Beth yw'r cyfleoedd a'r heriau i fusnesau yng Nghanolbarth Cymru?" a thrafododd ganfyddiadau'r arolwg ynni ochr yn ochr â sesiwn ryngweithiol a arweiniodd at drafodaethau cynhyrchiol.





## Canlyniadau arolwg Sgiliau

Y llynedd, cynhaliodd y PSRh arolwg Sgiliau i helpu i lywio cynlluniau pwysig ar sgiliau a recriwtio - diolch yn fawr i bawb a gymerodd ran - 111 ohonoch chi!

Powys – 63% o'r ymatebwyr

Ceredigion – 37% o'r ymatebwyr

Roedd y cyfraniad mwyaf o'r sectorau gweithgynhyrchu a pheirianneg (17%).

Bydd dadansoddiad o'r canlyniadau yn cael ei ddefnyddio i adrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru ar y dirwedd sgiliau ar gyfer Canolbarth Cymru.

Dyma gipolwg ar rai o'r canlyniadau:

**Heriau Cyffredinol**

**Beth yw'r brif her sy'n eich wynebu chi fel busnes?**

Recriwtio – 63%

Cadw staff – 11.65%

**Beth yw eich mater recriwtio mwyaf cyffredin?**

Dim digon o ddiddordeb yn y mathau hyn o rolau – 30%

Nid oes gan ymgeiswyr y sgiliau neu'r profiad angenrheidiol – 20%

**Pa rolau ydych chi'n wynebu heriau sgiliau ynddynt?**

Galwedigaethau masnach fedrus - 27%

**Prentisiaethau**

**Ydych chi'n cyflogi prentisiaid ar hyn o bryd?**

Nac ydyn – 56%

Ydyn – 44%

**Pam nad ydych chi'n cyflogi prentisiaid?**

Ddim yn addas ar gyfer angen y busnes – 36%

**Os ydych chi'n cyflogi prentisiaid, pa fudd maen nhw'n ei gynnig i'ch busnes?**

Cynnal dyfodol y busnes ac yn rhoi teimlad cadarnhaol i'r busnes – 97%

**Bydd ymatebion llawn yr arolwg ar gael ar wefan newydd y PSRh ym mis Mawrth 2024.**

## Newyddion tîm Tyfu Canolbarth Cymru

Rydym yn falch o gyhoeddi bod dau aelod newydd gan dîm TCC. Hoffem groesawu Peter Jones ac Amy Waters sy'n ymuno â Swyddfa Rheoli Portffolio'r Cynllun Twf. Fel Rheolwr Prosiectau a Pherfformiad, bydd Peter yn gyfrifol am gysylltu â Noddwyr Prosiect ynghylch datblygu achosion busnes, gan ddarparu cefnogaeth a monitro cynnydd. Mae Amy yn ymuno fel Uwch Swyddog Cymorth Gwasanaethau gan ddarparu cymorth gweinyddol mawr ei angen i'r tîm.

Hefyd, llongyfarchiadau i Dr Gemma Delafield sydd wedi cael ei phenodi fel Arweinydd Ynni Rhanbarthol. Bydd Gemma yn arwain ar ddarparu cyngor technegol a strategol i Gynghorau Sir Ceredigion a Phowys, a rhanddeiliaid allanol, ar sut y gallai Canolbarth Cymru leihau'r allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â'i system ynni. Mae hyn yn cynnwys popeth o gynyddu cynhyrchu trydan adnewyddadwy yn y rhanbarth, i archwilio ffyrdd o ddatgarboneiddio gwres, trafnidiaeth a diwydiant. Mae rôl flaenorol Gemma fel Swyddog Ynni Rhanbarthol yn cael ei hysbysebu nawr - dyddiad cau 07/03/24

Rydym yn dymuno'r gorau iddynt yn eu swyddi newydd.

Gallwch weld pwy yw pwy o fewn tîm Tyfu Canolbarth Cymru drwy edrych ar ein strwythur staffio.



*2 - Amy Waters, Uwch Swyddog Cefnogi Gwasanaethau*



*3 - Peter Jones, Rheolwr Prosiectau a Pherfformio*



*4 - Dr Gemma Delafield, Arweinydd Ynni Rhanbarthol*




## Cwrdd â'r Tîm

### Louise Grove-White - Swyddog Prosiect PSRh



*5 - Louise Grove-White*

**Pryd wnaethoch chi ddechrau gyda'r tîm?**

Dechreuais gyda thîm PSRh Canolbarth Cymru ym mis Rhagfyr 2022. Doeddwn i erioed wedi gweithio yn y sector cyhoeddus o'r blaen, felly roedd y newid yn real - system newydd o weithio ac iaith newydd i'w llywio ond mae'r derbyniad a gefais gan Dîm Tyfu Canolbarth Cymru wedi bod yn anhygoel.

Rwyf wedi cael gyrfa amrywiol hyd yma - dechreuais fy mywyd gwaith fel gweinyddwr mewn oriel yng Nghaerdydd a symud yn fuan i godi arian a rheoli prosiectau. Un o uchafbwyntiau fy ngyrfa oedd rheoli Cystadleuaeth ac Arddangosfa Ffotograffydd Bywyd Gwyllt y Flwyddyn am bum mlynedd yn yr Amgueddfa Hanes Natur yn Llundain. Teithiais gyda'r arddangosfa deithiol ryngwladol a chael cwrdd a gweithio gyda phobl anhygoel, gan gynnwys Syr David Attenborough, Chris Packham, Michaela Strachan a ffotograffwyr bywyd gwyllt byd-enwog. Roedd yn brofiad anhygoel a bythgofiadwy.

Yn fwy diweddar, rwyf wedi gweithio i Ymddiriedolaeth Tywysog Cymru, Coleg y Mynyddoedd Duon ac wedi cloddio i fyd gofal harddwch ar Fferm Lavender y Ffermwyr ger Llanfair-ym-Muallt.

**A allwch ddweud mwy wrthym am eich rôl?**

Fel Swyddog Prosiect, rwy'n gweithio ar draws y PSRh ar nifer o brosiectau o reoli datblygiad y wefan newydd hyd at gynhyrchu gwybodaeth newydd am y farchnad lafur i lywio ein blaenoriaethau sgiliau ar gyfer y rhanbarth.

Mae gen i gyfrifoldeb hefyd i nodi a datblygu unrhyw fentrau newydd sy'n dod i'n rhan. Er enghraifft, rwy'n gweithio gyda NPTC ac Arwyr Adeiladu i ddod â chwrs sgiliau adeiladu dwys Arwyr Adeiladu i Bowys, wedi'i anelu'n benodol at gyn-filwyr y lluoedd arfog a'u teuluoedd. Rwyf hefyd yn rheoli tri o'r grwpiau clwstwr newydd - y Darparwr, y Sector Cyhoeddus, a'r Clwstwr Gwarant i Bobl Ifanc - gan weithio gyda'r Cadeiryddion ar y blaenoriaethau ar gyfer pob grŵp.

**Beth yw eich blaenoriaethau presennol?**

Yn gadarn ar ein gorwel mae lansio gwefan newydd PSRh Canolbarth Cymru. Ar hyn o bryd, mae gennym dudalen ar wefan Tyfu Canolbarth Cymru, ond gyda'r gwaith a'r proffil rydym wedi'u cyflawni yn y rhanbarth dros y chwe mis diwethaf, roedd gwir angen safle pwrpasol arnom i gyfathrebu â'n cynulleidfa darged ac i arddangos Arsyllfa Data Cymru, a fydd yn darparu data ar berfformiad economaidd y rhanbarth, cyflogaeth, demograffeg, addysg a hyfforddiant ôl-16, y Gymraeg a chyfres o ffeithluniau sy'n canolbwyntio ar ein sectorau blaenoriaeth.

Ar hyn o bryd rydym yn gweithio'n agos gydag adrannau addysg Ceredigion a Phowys i edrych ar gyngor, gwybodaeth ac arweiniad gyrfaol 14+ oed ar gyfer y rhanbarth. Mae hwn yn ddarn mawr o waith a bydd angen llais ein dysgwyr, ysgolion, adrannau addysg a busnesau er mwyn deall y dirwedd bresennol.

**Pa ddatblygiadau ydych chi wedi'u gweld dros y blynyddoedd?**

Am 12 mis yn unig yr ydw i wedi cael profiad yn y maes hwn ac mae'r newidiadau wedi bod yn anghredadwy. Gyda sefydlu'r grwpiau clwstwr, mae gennym gysylltiad clir â'r gymuned fusnes a'r ddarpariaeth hyfforddiant yn y rhanbarth. Mae hwn yn llwyfan cadarn i ddylanwadu ar newid, gan bontio'r bwlch rhwng addysg ac adfywio ac adeiladu economi gref a bywiog yng Nghanolbarth Cymru.

Mae'r cysylltiadau rhwng y ddau awdurdod lleol yn gryfach nag erioed a cheir synergedd naturiol i gynnwys y PSRh ym mhob peth sy'n gysylltiedig â sgiliau ar draws y rhanbarth. Mae hwn yn gam mawr ymlaen i ni.

Mae 2024 yn edrych yn wych!

**Beth oedd eich cyflawniad mwyaf?**

Rwy'n credu mai fy nghyflawniad mwyaf fu sefydlu perthnasoedd gwaith da ar draws yr awdurdodau lleol, darparwyr hyfforddiant, Addysg Uwch ac Addysg Bellach, y Trydydd Sector, Llywodraeth Cymru

a'r PSRh eraill. Rydym yn 'Bartneriaeth' ac yn awr yn fwy nag erioed rwy'n gweld y canlyniadau positif am weithio ar y perthnasoedd hynny.

**Un gair sy'n crynhoi Tîm Tyfu Canolbarth Cymru:**

Cysylltiad – rydym yn dod yn fwyfwy integredig o fewn y tîm. Mae gweithio mewn seilos yn rhywbeth sy'n perthyn i'r gorffennol ac mae'r integreiddiad hwn ar draws ein ffrydiau gwaith wedi bod yn amhrisiadwy o ran gallu cyfleu gweledigaeth TCC a sut mae'r PSRh yn ffitio i mewn iddo.

## Newyddion arall

### Sesiwn ar-lein am ddim ar gyfer ysgrifennu cynigion uwch, tendro i ennill contractau

Mae Busnes Cymru yn cynnal sesiwn ar-lein am ddim, ar 26 Mawrth, i helpu i wella yn y broses dendro i ennill contractau.

Bydd y sesiwn yn cynnwys awgrymiadau gwych ar ennill ceisiadau, sut i adeiladu perswâd yn eich atebion, sicrhau'r cyfle gorau posibl o sgoriau uchel a mwy!

Ymwelwch â Busnes Cymru am fwy o wybodaeth a sut i gofrestru ar gyfer y sesiwn.

## Edrych ymlaen

A oes angen i chi ddal i fyny gyda'r hyn a drafodwyd yn ein cyfarfodydd? Dyma nodyn i'ch atgoffa o ble y gallwch gael gafael ar gofnodion y cyfarfodydd canlynol:

- Caiff yr holl gofnodion sy'n ymwneud â Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru eu cynnwys ar wefan Cyngor Sir Powys.
- Gellir gweld papurau sy'n ymwneud â Phartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru ar ein gwefan.

Gallwch weld y newyddion diweddaraf am Dyfu Canolbarth Cymru, datblygiadau am weithgarwch a sefydliadau yr ydym yn eu cefnogi trwy ddilyn ein tudalennau Linked In a Twitter:

https://twitter.com/growingmidwales

www.linkedin.com/company/growing-mid-wales

Rydym yn awyddus i estyn allan i gymaint o sefydliadau a busnesau ag y bo modd ar draws Canolbarth Cymru, a gallwch chi sicrhau bod hyn yn bosibl trwy ddilyn, hoffi a rhannu ein tudalennau.

Ymwadiad: Fel Rhanddeiliad Tyfu Canolbarth Cymru, rydych chi'n cael y negeseuon e- bost hyn er mwyn i ni allu rhannu newyddion a gwybodaeth gyda chi yn rheolaidd. Gallwch ein hysbysu os nad ydych yn dymuno cael y negeseuon e-bost hyn mwyach trwy anfon e-bost at tyfucanolbarthcymru@ceredigion.llyw.cymru

Tyfu
Canolbarth Cymru
Growing
Mid Wales